



Cyngor y Gweithlu Addysg

**Canllaw arfer da wrth brofi,
asesu, cynnal arholiadau a
goruchwylio**

Mehefin 2017

1.0 Cyflwyniad

Mae profion, asesiadau, arholiadau a goruchwylio'n rhan o fywyd bob dydd ym mhob cyfnod addysg a hyfforddiant. Am hynny, mae'n debygol y bydd gan y mwyafrif helaeth o ymarferwyr addysg ryw fath o gysylltiad â nhw yn ystod eu gyrfaeodd.

Er bod cyfrifoldebau penodol o fewn lleoliadau rheoledig o'r fath yn amrywiol ac yn niferus eu natur, o agor a storio papurau arholi, i weithredu fel asesydd, goruchwylydd, swyddog cyfrifol, i farcio gwaith cwrs neu bapurau prawf, y nod sy'n tra-arglwyddiaethu yn hyn oll i'r sawl sy'n gysylltiedig yw sicrhau bod ymgeiswyr yn cael triniaeth gyfartal a theg fel y gall fod hyder yn y graddau a'r ardstiadau a ddyfernir. Oherwydd y cyfrifoldeb hwn, mae angen i ymarferwyr sicrhau bod y posibilrwydd y caiff honiadau eu gwneud yn eu herbyn yn cael ei leiafu drwy ddilyn yr arfer gorau canlynol.

Bwriad y canllaw hwn yw eich helpu i wneud hynny.

Effaith honiadau o gamymddwyn

Mae profion, asesiadau ac arholiadau, i bob dysgwr, yn bwysig. Mae TGAU yn arbennig yn creu sylfaen gref i ddysgwyr allu mynd ar drywydd gyrfaeodd dethol, astudio ym maes addysg bellach, dilyn galwedigaethau, a chyflawni eu potensial.

Gall honiadau o gamymddwyn godi am lawer o wahanol resymau, ac er na ellir tybio bod ymarferydd bob amser ar fai, anorfod dweud bod y goblygiadau'n eang lle credir bod dysgwyr wedi cael mantais annheg mewn sefyllfaeodd o amodau prawf, asesu neu arholi.

Gall honiadau o'r natur yma gael effaith sylweddol a negyddol, nid yn unig i'r ymarferydd unigol dan sylw, ond gall hefyd beri oedi neu berygl i gynnydd addysgol dysgwyr. Er enghraifft, gallai tarfu ar amodau prawf, arholi neu asesu arwain at orfodaeth i ddysgwyr ailsefyll, ailgyflwyno gwaith cwrs, cael eu gwaith wedi'i ail-gymedroli sy'n golygu, mewn rhai sefyllfaeodd, eu bod yn colli allan ar leoedd mewn addysg bellach neu eu gyrfaeodd dethol. At hynny, gallai'r ymarferydd dan sylw, os canfyddir ei fod yn euog, fod wedi cyfaddawdu ei gyflogaeth a'i hygredd.

Gallai camymddwyn sydd wedi'i sefydlu fynd ymlaen i niweidio unplygrwydd y corff arholi, y cyflogwr a'r cyflogeion.

Craffu

Dylech gofio y gallai unrhyw ran byddwch chi'n ei chwarae mewn proses brofi, asesu, arholi neu oruchwylio fod yn destun craffu gan fyrddau arholi, dysgwyr, rhieni, y cyhoedd, eich cydweithwyr, a hefyd rheoleiddwyr fel Cymwysterau Cymru.

Felly, rhaid i chi, fel person cofrestredig, gymryd cyfrifoldeb personol dros eich ymddygiad yn y meysydd pwysig hyn.

2.0 Y disgwyliadau sydd arnoch chi fel gweithiwr proffesiynol

Mae pob un o ymarferwyr cofrestredig Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yn ddarostyngedig i'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol sy'n nodi'r egwyddorion allweddol o ran ymddygiad ac ymarfer da i gofrestreion. Dylid darllen y canllaw hwn ar y cyd â'r Cod y gellir ei lawrlwytho oddi ar wefan CGA.

Mae'r Cod yn nodi'r canlynol yn glir:

'Mae cofrestreion yn ymddwyn yn onest a chydag unplygrwydd... ac yn cynnal tasgau'n gysylltiedig ag asesu ac arholiadau gydag unplygrwydd.'

2.1 Arweiniad a phrotocolau a gyhoeddwyd (Byrddau arholi / Llywodraeth Cymru / ysgol neu sefydliad)

Gydag unrhyw brawf, asesiad, arholiad neu achos o oruchwylio, dylai fod rhyw fath o arweiniad penodol sy'n nodi sut y dylai ysgol, sefydliad neu ymarferydd ymdrin ag ef.

Er nad lle Cyngor y Gweithlu Addysg yw darparu cyngor ynghylch arweiniad o'r fath, p'un ai chi yw'r swyddog cyfrifol/Pennaeth y Ganolfan, ymarferydd sy'n goruchwylio neu asesu, rhaid i chi gymryd cyfrifoldeb personol dros ddarllen, dilyn a chymhwysu'r arweiniad perthnasol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ddiwygiadau i'r arweiniad hwnnw.

2.2 Egwyddorion cyffredinol - diogelu chi'ch hun

Fel ymarferydd a gaiff gyfrifoldeb mewn sefyllfa o brawf, arholiad neu asesiad, cofiwch y canlynol:

Ymgylfarwyddo a deall

- Darllenwch yr arweiniad sy'n berthnasol i'r prawf, arholiad neu asesiad hwnnw'n ofalus;
- Deallwch eich rôl;
- Gofynnwch gwestiynau os nad ydych yn sicr beth y disgwylir i chi ei wneud;
- Deallwch pa amodau arbennig sy'n berthnasol i ymgeiswyr. Er enghraifft, addasiadau rhesymol, trefniadau mynediad ac ystyriaethau arbennig;
- Deallwch beth i'w wneud / gyda phwy y dylech siarad pan fydd problemau neu ddigwyddiadau anarferol yn codi.

Os na chewch unrhyw arweiniad, gofynnwch amdano, gan gynnwys unrhyw ddiwygiadau. Peidiwch â gadael i anwybodaeth eich gadael yn agored.

Cymhwysu unrhyw arweiniad yn briodol

Os:

- gwnewch gamgymeriad;
- anghofiwch gymhwysu'r arweiniad yn y ffordd benodedig;
- ydych yn teimlo o dan bwysau i weithredu'n groes i'r arweiniad;

- oes rhywbeth yn eich atal rhag cymhwyso'r arweiniad fel y dylech; neu
- os aiff pethau o chwith am unrhyw reswm arall,

rhowch wybod i'ch rheolwr llinell, y Swyddog Arholiadau, neu swyddog cyfrifol arall o'r fath cyn gynted â phosibl.

Llofnodi dogfennau'n ofalus

- Dylech ddarllen yn ofalus a deall unrhyw ddogfen y gofynnir i chi ei llofnodi neu y mae disgwyl i chi ei llofnodi - cymerwch eich amser;
- Deallwch pam mae gofyn i chi ei llofnodi neu pam mae disgwyl i chi ei llofnodi - beth yw eich rôl, beth yw diben y ddogfen, i bwy mae'r ddogfen? Os nad ydych yn sicr, gofynnwch;
- Os gofynnir i chi gadarnhau, drwy lofnodi dogfen, eich bod wedi dilyn rhywfaint neu bob rhan o arweiniad y bwrdd arholi, sicrhewch fod hyn yn wir cyn llofnodi;
- Os ydych yn teimlo'ch bod yn cael eich annog neu'ch gorfodi i ffugio dogfen, siaradwch â'ch rheolwr llinell, y Swyddog Arholiadau, neu swyddog cyfrifol arall o'r fath, neu eich undeb llafur;
- Os ydych yn teimlo am unrhyw reswm arall na allwch, neu na ddylech lofnodi unrhyw fath o ddatganiad, siaradwch â'ch rheolwr llinell, eich Swyddog Arholiadau, neu swyddog cyfrifol arall o'r fath, neu eich undeb llafur.

Bod yn wyliadwrus

Os ydych yn amau:

- bod cydweithwyr, yr ysgol, y sefydliad neu'r ymarferydd wedi mynd yn groes i'r arweiniad ynghylch y prawf / arholiad / asesiad a/neu brotocolau;
- bod ymgeiswyr wedi llên-ladrata;
- bod rhywbeth o'i le o ran dilysrwydd gwaith cwrs;
- bod ymgeiswyr wedi torri amodau prawf neu arholiad;
- os yw'n ymddangos bod marciau neu raddau wedi'u gwella neu eu newid, yn arbennig mewn perthynas â gwaith cwrs; neu
- os yw'r broses brofi, asesu neu arholi wedi'i chyfaddawdu am unrhyw reswm arall,

rhowch wybod i'ch rheolwr llinell, y Swyddog Arholiadau, neu swyddog cyfrifol arall o'r fath cyn gynted â phosibl.

Os na allwch hysbysu am hyn yn lleol am unrhyw reswm, siaradwch â'ch undeb llafur yn gyntaf.

Os nad ydych yn aelod o undeb llafur, dylech geisio gofyn am gyngor o hyd gan rywun y gallwch ymddiried ynddo cyn adrodd bod amheuaeth ynghylch mater.

Cofiwch:

- eich sefyllfa fel gweithiwr proffesiynol;
- mai eich cyfrifoldeb chi yw eich ymddygiad;

- pwysigrwydd cynnal unplygrwydd y prawf, arholiad, asesiad a/neu gyfnod goruchwylio;
- eich cyfrifoldeb i ddysgwyr.

3.0 Enghreifftiau o achosion y mae CGA wedi ymchwilio iddynt

Mae'r enghreifftiau isod yn rhai o'r achosion a gyfeiriwyd at CGA er mwyn iddo ymchwilio iddynt yn ymwneud â chamymddygiad honedig mewn profion, asesiadau ac arholiadau. Enghreifftiau yw'r rhain o achosion lle mae ymarferwyr wedi mynd yn groes i'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol:

- bu i athro/athrawes ganiatáu i ddisgyblion ailddrafftio atebion yn ystod amodau arholi'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol;
- rhoddodd tri gweithiwr cymorth dysgu ysgol fwy o amser i ddysgwyr gwblhau profion safonol, yn groes i'r canllawiau;
- llofnododd Pennaeth ddatganiad, gan wybod bod yr ysgol wedi mynd yn groes i ganllawiau'r bwrdd arholi yn y Prawf Darllen a Rhifedd Cenedlaethol;
- ffugiodd ymarferydd lofnodion dysgwyr yn erbyn gwaith cwrs;
- newidiodd Pennaeth ganlyniadau arholiadau am i fyny, gan eu hanfon wedi hynny i Lywodraeth Cymru gan honni eu bod yn gywir.

4.0 Sut gallwn eich helpu ymhellach

- Mae CGA yn cynnig cyflwyniadau sy'n canolbwyntio ar briodoldeb i ymarfer. Os hoffech chi neu eich cyflogwr drefnu un o'r cyflwyniadau hyn yn eich ysgol neu'ch coleg, cysylltwch â (gwybodaeth@cga.cymru);
- Gellir dod o hyd i God Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol CGA ar gyfer cofrestreion gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, a gellir dod o hyd i wybodaeth am waith priodoldeb i ymarfer CGA ar ei wefan <http://www.ewc.wales/site/index.php/cy/priodoldeb-i-ymarfer/priodoldeb-i-ymarfer/rheoleiddio-ac-ymarferwyr-addysg-yng-nghymru>
- Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau at y Tîm Priodoldeb i Ymarfer yn priodoldebymarfer@cga.cymru